

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 40

Key language

Responses to statements

Pryd/Pan

Rhywle/Rhywbryd/Rhywfaint etc.

New Words

Angori	to anchor
Sâl	poor
Gwahaniaeth	difference
Gollwng	to drop
Hyd yn oed	even
Harbwr	harbour
Crefft ynddo'i hunan	a craft in itself
Cynnal a chadw	maintenance
Doniol	funny
Defnyddio	to use
Y rhan fwyaf	the most
Rheswm	reason
Ymwelwyr	visitors
Nefoedd	heaven
Cysur	comfort
Dibrofiad	inexperienced
Lleol	local
Blas	a taste
Drud	expensive
Cyfaddef	to admit
Dychmygu	to imagine
Amheuaeth	doubt
Yn bendant	definitely
Echdoe	the day before yesterday
Fiw i mi	I dare not
Syniad	idea
Pwyllo	to calm down
Brwd	keen
Yn y fan a'r lle	on the spot
Y cyfan	the whole
Cael gwarded	to get rid of
Dichwaeth	in bad taste
Ymateb	to respond
Cyfle	chance
Ymddiheuriadau	apologies
Maddeuwch i mi	excuse me
Rhannu	to share
Atgofion	memories
Ymroddedig	devoted

Main Grammatical Points

Responses to statements

In Welsh as in English we often make statements which can or can not be responded to. In Welsh however the Yes or No form depends on the person and tense of the verb.

Arwyn says:

Mae eitha criw yma There's quite a crowd here
And Agnes responds Oes – yes there is

The best way to find out what the yes response is is to change the statement into a question –

Mae criw yma There's a crowd here
Question form Is there a crowd here Oes criw yma

Answer Oes or Nac oes

Look at the following examples:

Mae hi'n braf It's fine
Question form would be Is it fine Ydy hi'n braf?

Answer Ydy or Nac ydy

Maen nhw'n hwyr They're late Ydyn nhw'n hwyr

Answer Ydyn or Nac ydyn

Other responses follow the same pattern

Roedd hi'n stormus Oedd
Byddi di'n siwr o'i adnabod Bydda
Welais i ti yn y gêm Do

Note however that the response to all emphatic sentences is Ie or Nage

Yn y ty wyt ti Ie
Gareth wyt ti Nage

Pryd/Pan

You will have noted that there are two ways of translating the word 'when' in Welsh.

Wendy asks Brian Pryd ydw i'n dy weld ti to?
When will I see you again

Brian says pan ddaw o neu hi
when he or she comes

The general rule is that pryd is used as a question form and pan is used with a statement

Here are some more examples
Pryd ydych chi'n cael eich pen-blwydd?
Pryd mae'r gêm?
Pryd wyt ti'n codi?

Pan fyddwch chi'n dod i'r dref, galwch i'n gweld i
Dw i yn ei gofio fe pan oedd e yn yr ysgol
Pan oeddwn i ar fy ngwyliau, fe ges i ddamwain

Rhywle/Rhywbryd/Rhywfaint etc.

Rhyw meaning some is an important little word in Welsh and it's to be found preceding words such as Ie, un, pryd, sut, maint.

Rhywle
Rhywbryd
Rhywsut
Rhywun
Rhywfaint

somewhere
sometime
somehow
someone
some amount

Ysbyty Brynaber: Episode 118

Arwyn and Brian are down at the harbour discussing the finer points of sailing.

Agnes and Jenny discuss the visit to Dic Allen's flat

Geirfa

Angori	to anchor
Sâl	poor
Gwahaniaeth	difference
Gollwng	to drop
Hyd yn oed	even
Harbwr	harbour
Crefft ynddo'i hunan	a craft in itself
Cynnal a chadw	maintenance
Doniol	funny
Defnyddio	to use
Y rhan fwyaf	the most
Rheswm	reason
Ymwelwyr	visitors
Nefoedd	heaven
Cysur	comfort
Dibrofiad	inexperienced
Lleol	local
Blas	a taste
Drud	expensive
Cyfaddef	to admit
Dychmygu	to imagine
Amheuaeth	doubt
Yn bendant	definitely
Echdoe	the day before yesterday
Fiw i mi	I dare not

Golygfa 1

Brian - Angori sâl?

Arwyn - Ie. Mae angori da ac angori sâl...

Brian - Sori, Arwyn, Ond dw i ddim cweit yn deall y gwahaniaeth...

Arwyn - Does dim byd pwysicach na gollwng angor cwch yn iawn.

Brian - Beth? Hyd yn oed mewn harbwr?

Arwyn - Wrth gwrs. Mae mwy o gychod wedi eu colli trwy angori yn sâl na trwy stormydd.....

Brian - Wir?

Arwyn - Mae angori cwch yn grefft ynddi ei hunan, Brian.

Brian - Dyna fi wedi dysgu rhywbeth newydd yn barod. Cwch 'fibreglass' ydy hwn i gyd?

Arwyn - Ie

Brian - A faint o gynnal a chadw sydd eisiau arni?

Sori? Dw i wedi dweud rhywbeth doniol?

Arwyn - Na, na. Sori...

Brian - Beth sydd?

Arwyn - Cynnal a chadw. Sa i wedi clywed neb o fois y marina yn defnyddio'r term yna...

Brian - Pa derm mae bois y marina yn ei ddefnyddio am gynnal a chadw 'te?

Arwyn - 'Maintenance'. Saeson yw'r rhan fwy sy'n hwylio cychod mas o'r marina 'ma.

Brian - Beth? Ymwelwyr haf?

Arwyn - Ie. Dyna ti. Ymwelwyr haf gan bennaf.

Brian - Does dim rheswm pam na allwn ni fel Cymry hwylio cystal â'r ymwelwyr hefyd.

Arwyn - Dw i'n cytuno'n llwyr...

Brian - Yr unig beth sy gen i ei ofn fasai mynd ar goll yn y môr...

Arwyn - Amhosib.

Brian - Amhosib?
 Arwyn - Ydy, Brian. Hollol amhosib.
 Brian - Pam wyt ti'n dweud hynny, Arwyn?
 Arwyn - Mae 'electronic charting' gyda ti...
 Brian - Wir? Beth? Sy'n gweithio o 'satellite'?
 Arwyn - Yn gwmws. Ble bynnag rwyd ti'n mynd ar y môr, mae pâr o lygaid yn dy wyllo di o'r nefoedd...
 Brian - Fel Duw ei hun?
 Arwyn - Ie. Fel Duw 'i hunan.
 Brian - Mae hynny'n gysur mawr i forwr di-brofiad fel fi...
 Arwyn - Os wyt ti'n penderfynu prynu'r cwch yna, fe fydd rhaid iti fynd ar gwrs dysgu hwylio, cofia...
 Brian - Oes 'na gwrs lleol ar gael?
 Arwyn - Oes. Dau neu dri.
 Brian - Ydyn nhw yn gyrsiau drud?
 Arwyn - Nac ydyn, dim mor ddrud â hynny, Brian. Rodda i flas ar sut mae hwylio cwch ar y môr iti y p'nawn yma ...
 Brian - Dw i'n barod iawn i ddysgu. I ffwrdd â ni, capten!

Golygfa 2

Agnes - Sori, Jenny. Ond allai di basio'r halen i fi, os gweli di'n dda? Diolch.
 Sori...
 Jenny - Beth sy'n bod?
 Agnes - Dim halen yw hwn, pupur.
 Jenny - Mae'n ddrwg gen i. Mae fy meddwl i'n bell i ffwrdd.
 Agnes - Meddwl 'bytu'r wythnos dwetha o hyd?
 Jenny - Ie.
 Agnes - Oedd e'n od, mae'n rhaid i fi gyfaddef.
 Jenny - Od? Dw i'n meddwl ei fod o'n od iawn.
 Agnes - A ti ddim yn meddwl bod ni'n dwy wedi dychmygu'r peth?
 Jenny - Beth? Dychmygu fod y gwely yn fflat Richard yn gynnes?
 Agnes - Ie. Ti ddim?
 Jenny - Na...
 Agnes - Na. Ti'n iawn. Nes i deimlo'r fatres 'na â nwylo'n hunan...
 Jenny - Ac mi roedd hi'n gynnes...
 Agnes - Oedd. Heb unrhyw amheuaeth, roedd hi'n gynnes.
 Jenny - Roedd rhywun wedi cysgu yn y gwely yna yn bendant.
 Agnes - Oedd. Yn bendant.
 Jenny - Rhywun o'r teulu?
 Agnes - Pan gysylltais i â chwaer Richard echdoe i'w gwahodd hi i'r gwasaneth coffa dydd lau, dwedodd hi fod neb o'r teulu wedi bod yn y fflat o gwbl hyd yn hyn...
 Jenny - Mae'n rhaid fod gen rhywun arall allwedd 'ta.
 Agnes - Rhaid fod.
 Jenny - Does dim rheswm arall.
 Agnes - Na.
 Jenny - Onibai, wrth gwrs...
 Agnes - Beth?
 Jenny - Na. Fiw imi. Feiddia i ddim meddwl am y peth.
 Agnes - Fod Richard yn fyw?
 Jenny - Wyt ti'n meddwl?
 Agnes - Sa i'n gwbod...
 Jenny - Na. Na fi chwaith...

Ysbyty Brynaber: Episode 119

Agnes tells her husband to forget the idea of buying Arwyn Saunders' boat.

Arwyn and Jenny and later Agnes discuss the appropriateness of selling the boat. Jenny feels that nothing should be done before the memorial service for Dic Allen.

Geirfa

Syniad	idea
Pwyllo	to calm down
Brwd	keen
Yn y fan a'r lle	on the spot
Y cyfan	the whole
Cael gwared	to get rid of
Dichwaeth	in bad taste

Golygfa 1

Agnes - Brian, allwn ni drafod hyn heno?

Brian - Pam?

Rhodri - Plis, Mam, plis!

Agnes - Sa i'n gwbod beth i feddwl...

Rhodri - Plis, Mam! Plis gwed, plis!

Brian - Ti ddim yn meddwl ei fod o'n grêt o syniad?

Rhodri - Mae e, Dad! Mae e'n brilliant! Hollol brill!

Agnes - Brian, wyt ti wedi gosod y larwm?

Brian - Agnes, pam na ddoi di allan hefo fi ar y cwch?

Agnes - Dw i'n casau bod ar y môr...

Brian - Mi faset ti wrth dy fodd.

Rhodri - Plis dwed 'le!' Mam!

Agnes - Rhodri, pwylla nawr!

Rhodri - Plis, dwed 'le!' - plis!

Agnes - Rhodri, bydd yn dawel nawr wnei di?

Rhodri - Pryna'r cwch, Dad, plis pryna'r cwch!

Agnes - Smo ni'n prynu unrhyw gwch! Nawr mewn a chi i'r car...Rhodri...Beca, dewch!

Rhodri - Ond ni'n mynd i brynu'r cwch on'd ydyn ni?

Agnes - Bydd dawel ddweddes i...

Rhodri - Plis, Mam, plis!

Agnes - Sa i isie clywed gair arall 'bytu'r cwch 'ma - iawn...? Wyt i'n gweld beth rwyt ti wedi wneud nawr?

Brian - Fi?

Agnes - Ie. Ti, Brian! Yn mynd ymlaen ac ymlaen am brynu'r cwch 'ma! Wnewn ni byth glywed diwedd ar hyn nawr...

Brian - Ond ti'n gorfod cyfaddef y basa fo'n sbort.

Agnes - Sbort?

Brian - Ia. Sbort a hanner.

Agnes - I bwy?

Brian - I ni.

Agnes - I ti, ti'n feddwl.

Brian - Nage. I ni fel teulu.

Agnes - Ni fel teulu, wir.

Rhodri - Plis, Mam.

Agnes - Rhodri, 'sa i isie clywed gair arall.

Brian - Dw i'n meddwl y basen ni'n cael lot o hwyl.

Agnes - Ond beth am y gost, Brian?

Brian - Dydy'r cwch ddim mor ddrud â hynny.

Agnes - A sut mae cynnal a chadw cwch?

Brian - Mi fasai'n rhaid imi fynd ar gwrs.

Agnes - A faint fyddai cwrs yn gostio?

Brian - Dim llawer...

Agnes - Sori. Ond fe fydd rhaid i fi feddwl rhagor am yr holl beth. Iawn?

Golygfa 2

Arwyn - Ac o'n i'n 'impressed' iawn...

Jenny - Da iawn.

Arwyn - Wy'n siwr y byddai Brian yn gwneud morwr penigamp...

Jenny - A beth? Mae o eisiau prynu'r cwch?

Arwyn - Roedd e'n frwd iawn i brynu o yn y fan a'r lle...A dweud y gwir, wedi inni ddod yn ôl i'r harbwr ag ar ôl inni angori, a mynd lan i'r clwb, dda'th e â'i lyfr siec mas!

Jenny - Brian Rees?

Arwyn - Ie. A pham lai? Fel dwedodd Brian, fydd e'n sbort i'r teulu cyfan.

Jenny - Ydy o wedi trafod hyn hefo Agnes?

Arwyn - Oedd e'n mynd i wneud hynny yn syth. Fydd Mam yn hapus. Fydd Mam yn hapus dros ben fy mod i wedi cael gwared â'r cwch.

Arwyn - Beth sydd? Rwy'ti'n dawel iawn.

Jenny - Meddwl ydw i: dydy hyn ddim braidd yn ddi-chwaeth?

Arwyn - Di-chwaeth?

Jenny - Ia. Di-chwaeth. Hollol ddi-chwaeth.

Arwyn - Am beth ti'n barablu?

Jenny - Sut wyt ti'n gallu trafod gwerthu'r cwch rwan a gwasanaeth coffa Richard yfory? Ti ddim yn meddwl fod hyn yn beth hollol ddi-chwaeth i wneud rwan?

Arwyn - Na.

Jenny - Allet ti ddim fod wedi aros tan wythnos nesa?

Arwyn - Esgusoda fi.

Jenny - Bore da...

Agnes - Ydy hi, dwed?

Jenny - Beth sydd?

Agnes - Brian.

Jenny - Y busnes prynu'r cwch yma?

Agnes - Wyt i'n gwbod am hyn, wyt ti?

Jenny - Ydw. A dw i'n meddwl fod Arwyn ar fai. Sut gallai fo fod mor ddi-chwaeth? I drafod gwerthu'r cwch a gwasanaeth coffa i Richard pwnn yfory?

Agnes - Mae cymaint o fai ar Brian.

Jenny - Na. Mi faswn i'n dweud fod mwy o fai ar Arwyn. Mae o'n deud mai ei fam o sydd eisiau iddo fo werthu'r cwch. Ond dw i'n meddwl mai Arwyn ei hun sydd eisiau gwneud. Oherwydd beth wnaeth o i Richard...

Ysbyty Brynaber: Episode 120

Brian Rees is at Wendy's flat where he tells her that he has bought the boat for her and the baby.

At the memorial service for Dic Allen Jenny Saunders' mobile phone rings. But who's calling her?

Geirfa

Ymateb	to respond
Cyfle	chance
Ymddiheuriadau	apologies
Maddeuwch i mi	excuse me
Rhannu	to share
Atgofion	memories
Ymroddedig	devoted

Golygfa 1

Brian - Diolch am y cinio.

Wendy - Wyt i'n mynd nawr?

Brian - Ydw. Well imi fynd. Mae gwaith yn galw.

Wendy - Pryd dw i'n dy weld ti eto...? Glywest ti fi?

Brian - Do...

Wendy - Wel?

Brian - Ar ôl y gwaith. Tua chwech. Dw i eisiau dangos rhywbeth i ti...

Wendy - Dangos beth?

Brian - Cwch.

Wendy - Cwch? Ti'n 'serious'?

Brian - Ydw. Dw i eisiau gwybod beth rwyd ti'n feddwl ohono...

Wendy - Pam?

Brian - What's up with you? All through lunch I felt your mind drifting all the time...? Beth yw'r busnes cwch yma 'te?

Brian - Dw i'n meddwl prynu cwch...Pam ti'n ymateb fel'na?

Wendy - You? Turning into a chirpy little sailor-boy? Well, I've heard of daft ideas in my time! But this takes the bleeding biscuit! Mae hyn yn hollol ridiculous! And there I was, always thinking that I was your mid-life crisis. How off the mark a girl can be... Rwyd ti'n 'serious'. I see...

Brian - Does dim rhaid i ti ddod i weld o os ti ddim isio...

Wendy - I'll come.

Brian - Na, na...

Wendy - Honest, I will...

Brian - I be? Rwyd i'n meddwl fy mod i'n ddwl bost...

Wendy - Na, wy ddim. Mae e jyst yn beth 'mor out of the ordinary' i ti wneud...

Brian - I ti dw i'n prynu'r cwch. Er dy fwyn di. Er mwyn i ti a fi a'r babi - pan ddaw o neu hi - i gael dipyn o awyr iach a haul a hynny yn bell o olwg pawb...

Wendy - Sori bod fi wedi bod mor insulting, Brei.

Brian - Ddoi di hefo fi?

Wendy - I'd love to...

Golygfa 2

Jenny - Mae Isabel yn ymddiheuro...

Agnes - Pam? Smo hi'n gallu ymuno â ni?

Jenny - Nac ydy. Mae hi'n gorfod bod yn yr operating theatre am ddau...

Agnes - Trueni...Ydy Arwyn yn dod?

Jenny - Ydy.

Agnes - Da iawn.

Jenny - Wyt ti wedi cyfarfod chwaer Richard eto?

Agnes - Nac ydw. Ddim 'to...Ydy hi 'ma?

Jenny - Ydy, yn rhywle...roedd hi yma eiliad neu ddwy yn ôl...

Agnes - Paid â becsu. Fe ddaw cyfle ar ôl y gwasanaeth...
Jenny - Ydy hi'n well inni ddechrau?
Agnes - Ydy...
Agnes - A! Dacw fe, Arwyn...
Jenny - Ble rwy'ti wedi bod?
Arwyn - Sori. Oedd rhaid i fi fynd draw i'r Adran X-ray...Mae eitha criw yma.
Agnes - Oes.
Jenny - A rhagor eisiau bod yma ond yn methu dod ac wedi gyrru eu ymddiheuriadau....
Agnes - Iawn. Fe af fi i ddechre, ife?
Jenny - Pam lai?
Agnes - Gyfeillion...Esgusodwch chi...I ddechre...Diolch ichi i gyd am ddod yma prynhawn 'ma...
Maddeuwch i mi...Yn syml iawn, wedi dod at ein gilydd rydyn ni heddiw i gofio Doctor Richard Allen ac
i rannu ychydig o atgofion amdano fe... Yn bersonol, y person wy'n gofio yw gwr ifanc hoffus
a...a...wel...brwd...'Na'r gair...Brwd. Brwd ac ymroddedig...Roedd Richard wastad yn rhoi cant y
cant i gleifion yr ysbyty 'ma...Wy'n cofio nawr y tro cyntaf nes i gyfarfod e...
Arwyn - Jenny?
Jenny - Beth?
Arwyn - Ateb dy ffôn er mwyn dyn!
Jenny - Sori... Helo?
Jenny - Helo? Oes rhywun yna?
Arwyn - Pwy sy yna?
Jenny - Dw i ddim yn siwr...
Arwyn - Dere â hi i fi.
Jenny - Na!
Arwyn - Beth sydd?
Jenny - Dim. Dim byd o gwbl. Iawn?

Synopsis

Brian had heard that Arwyn's boat was for sale. He was very keen to buy it. Agnes, however, was very reluctant to allow him to go ahead with the purchase.

At the remembrance service for Dic Allen. Jenny received a call on her mobile.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'the most'?
 - a) y rhan mawr
 - b) **y rhan fwyaf**
 - c) y rhan hon
2. What's Welsh for 'on the spot'?
 - a) fan yma
 - b) **yn y fan a'r lle**
 - c) fan yna
3. How would you translate 'When do you get up?' into Welsh?
 - a) **Pryd rwyd ti'n codi?**
 - b) Pan wyt ti'n codi?
 - c) Pam wyt ti'n codi?
4. How would you say 'I'm going to get rid of the boat' in Welsh?
 - a) Dw i'n mynd i arbed y cwch
 - b) Dw i'n mynd i goll'i'r cwch
 - c) **Dw i'n mynd i gael gwared o'r cwch**
5. How would you say 'somehow' in Welsh?
 - a) **Rhywsut**
 - b) Rhywun
 - c) Rhywbryd
6. What is the Welsh for 'apologies'?
 - a) Ymddiheiro
 - b) Ymddiddori
 - c) **Ymddiheuriadau**